



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Hawdd ei Ddeall

Ein cynllun i wneud y gorau o'n cyfoeth naturiol yng Nghymru

Ebrill 2014 – Mawrth 2017



**Fersiwn Hawdd ei Ddeall yw hwn o 'Ein Cynllun Corfforaethol
2014 – 2017' Ebrill 2014**



Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai bydd arnoch angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen hon. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Efallai bydd rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain wedi cael eu hysgrifennu mewn **glas trwm** a dywedir beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.

Os bydd unrhyw un o'r geiriau yn cael eu defnyddio eto yn y llyfryn byddan nhw'n cael eu dangos mewn **ysgrifennu glas cyffredin**. Os gwelwch chi eiriau mewn **ysgrifennu glas cyffredin**, gallwch edrych beth maen nhw'n feddwl mewn **Rhestr o'r geiriau anodd** ar dudalen 28.



Pan fydd y ddogfen yn dweud 'ni', mae hyn yn meddwl Cyfoeth Naturiol Cymru.

Os hoffech chi gael y ddogfen hon mewn fersiwn fydd yn cwrdd â'ch anghenion, neu yr hoffech chi siarad â ni am ein gwaith, cysylltwch â ni:



Ffôn 0300 065 3000
(8am - 5pm dydd Llun i ddydd Gwener)



E-bost ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Gwefan www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk



Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn Hawdd ei Deall gan Anabledd Dysgu Cymru gan ddefnyddio Photosymbols 5.

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon.....	2
Pwy ydyn ni.....	5
Ein cynllun	
1. Gwybodaeth a dysgu.....	6
2. Yr amgylchedd.....	8
3. Pobl.....	10
4. Busnes.....	12
5. Ein mudiad.....	13
Mwy o wybodaeth.....	14
Rhestr o'r geiriau anodd.....	14



Llifogydd

Am wybodaeth am lifogydd ffoniwch ein Llinell Rhybuddion Llifogydd.

Ffôn 0345 988 1188 (Ar agor 24 awr)



Problemau gyda llygredd

Ffôn 0800 807 060 (Ar agor 24 awr)

Mae llygredd yn rhywbeth yn yr amgylchedd sy'n gallu gwneud drwg i ni. Er enghraifft: gwastraff cemegol o ffatrioedd.



Pwy ydyn ni

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn fudiad newydd. Cafodd ei gychwyn yn Ebrill 2013 i ofalu am yr **amgylchedd** a **chyfoeth naturiol** yng Nghymru.



Mae'r **amgylchedd** o amgylch ble rydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr a'r aer a phopeth sy'n byw ynddo ac arno. Er enghraifft: planhigion, anifeiliaid a physgod.



Mae **cyfoeth naturiol** yn bethau yn yr amgylchedd y gallwn ni eu defnyddio. Er enghraifft: dŵr i'w yfed, bwyd i'w fwyta, aer i'w anadlu, gwynt a dŵr i wneud ynni.



Os ydyn ni'n cymryd gofal o'r **amgylchedd**, fe fyddwn ni'n gallu defnyddio ei **gyfoeth naturiol** am flynyddoedd i ddod.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Llywodraeth Cymru yn ein cefnogi ac rydyn ni'n eu cynghori nhw ynghylch sut i ofalu am yr **amgylchedd** a'n **cyfoeth naturiol**.



Mae gennym ni lawer o waith i'w wneud. Hwn yw ein cynllun tair blynedd. Mae'n rhestru'r pethau sydd arnon ni angen eu gwneud i ofalu am yr **amgylchedd** ac amddiffyn ein **cyfoeth naturiol** ar gyfer y dyfodol.

1. Gwybodaeth a dysgu

Er mwyn cynllunio ar gyfer y dyfodol, mae arnon ni angen deall sut y gall pethau newid. Er enghraifft:



- Sut dywydd fydd yma mewn 10 neu 20 o flynyddoedd?
- Sut bydd yr **amgylchedd** yn newid?
- Faint o ynni a bwyd fydd eu hangen arnon ni?



Er mwyn deall y newidiadau hyn, mae arnon ni angen gwybodaeth dda a dysgu mwy.

Er mwyn gwneud hyn fe fyddwn ni'n:



- Gweithio'n agos gyda mudiadau eraill,



- Edrych ar y llun mawr. Er enghraifft: os byddwn ni'n gwneud newidiadau i'r **amgylchedd** fe fyddwn ni'n edrych sut y bydd y newidiadau yn effeithio ar blanhigion, anifeiliaid ac adar, yn ogystal â phobl a busnesau.




- Edrych beth yw anghenion busnesau yng Nghymru. Er enghraifft: faint o ynni a dŵr fydd eu hangen arny'n nhw.



- Gweld beth mae gwledydd eraill yn ei wneud.



- Gweld beth y gall gwyddoniaeth ei ddweud wrthyn ni. Er enghraifft: mae gwyddonwyr yn edrych ar newidiadau yn y tywydd. Gall hyn ddweud wrthyn ni sut y bydd ein hafonydd a'n harfordir yn newid dros amser.



2. Yr amgylchedd

Mae arnon ni eisiau gofalu am yr **amgylchedd** heddiw a'i wella ar gyfer y dyfodol.



Mae arnon ni eisiau cadw pysgod, anifeiliaid a phlanhigion yn iach.



Mae arnon ni eisiau cadw'r tir, y môr a'r aer yn lân.



Er mwyn gwneud hyn fe fyddwn ni'n:

- Meddwl am y dyfodol pan fyddwn ni'n gwneud penderfyniadau heddiw.



- Defnyddio ein **cyfoeth naturiol** yn ofalus er mwyn eu defnyddio am flynyddoedd i ddod.



- Gwneud yn siŵr bod ein dŵr, ein môr, ein tir a'n haer yn lân.



- Cadw llygad ar blanhigion ac anifeiliaid sy'n cario clefydau.



- Ffeindio ffyrdd o amddiffyn yr **amgylchedd** rhag newidiadau yn y tywydd. Er enghraifft: stormydd difrifol a glaw trwm.





3. Pobl

Mae arnon ni eisiau i bobl deimlo'n ddiogel a mwynhau'r lle maen nhw'n byw.

Er mwyn gwneud hyn fe fyddwn ni'n:

- Gwneud popeth fedrwn ni i amddiffyn pobl rhag llifogydd a **llygredd**.



Mae **llygredd** yn rhywbeth sydd yn yr amgylchedd sy'n medru achosi niwed i ni. Er enghraifft: gwastraff cemegol o ffatrioedd.



- Pan fydd **llygredd** neu lifogydd yn digwydd, fe fyddwn ni'n dod o hyd i ffordd gyflym o roi pethau'n iawn.



- Creu mwy o ffyrdd i bobl fwynhau cefn gwlad a'i wneud yn hawdd i'w gyrraedd. Er enghraifft, clirio llwybrau a gofalu am y tir coediog.

- Gwneud yn siŵr bod pobl yn y trefi a'r dinasoedd yn medru mwynhau'r awyr agored. Er enghraifft: parciau da ac aer glân.



- Gweithio gyda chymunedau i wella ble maen nhw'n byw.



- Helpu pobl i ddeall pa mor bwysig yw'r **amgylchedd** a'n **cyfoeth naturiol**.





4. Busnes

Mae arnon ni eisiau i fusnesau yn Nghymru ofalu am yr **amgylchedd** a defnyddio ein **cyfoeth naturiol** yn y ffordd iawn.

Er mwyn gwneud hyn fe fyddwn ni'n:



- Gwneud yn siŵr bod busnesau'n deall bod yn rhaid iddyn nhw ofalu am yr **amgylchedd**.



- Gwneud yn siŵr nad yw busnesau'n **llygru'r** tir, yr aer na'r dŵr.



- Cefnogi busnesau newydd a gwneud yn siŵr bod adeiladau'n cael eu hadeiladu yn y mannau iawn. Er enghraifft: dydyn nhw ddim yn difetha'r **amgylchedd** nac yn niweidio'r bywyd gwylt.



- Gweithio gyda busnesau, gan godi arian i ofalu am yr **amgylchedd**.



5. Ein mudiad

Mae arnon ni eisiau gwneud ein gwaith orau gallwn ni.

Er mwyn gwneud hyn fe fyddwn ni'n:



- Gwella ein gwasanaethau i gwsmeriaid a mudiadau rydyn ni'n gweithio gyda nhw.



- Gwneud yn siŵr bod cymunedau'n cael rhoi eu barn am yr hyn rydyn ni'n ei wneud.



- Gweithio mewn ffyrdd newydd i arbed arian ac amser.



- Hyfforddi staff i fod yn well am wneud eu gwaith a bod yn falch o'r hyn maen nhw'n ei wneud.



Mwy o wybodaeth

Darllenwch ein hadroddiad blynyddol i ddilyn y diweddaraf yn ein cynlluniau. Gallwch ddod o hyd i'n Hadroddiad Blynyddol yn:

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Cysylltwch â ni os oes gennych chi rywbeth i'w ddweud am ein gwaith.



Ffoniwch ni ar 0300 065 3000. Rydyn ni ar agor o 8am hyd 5pm, dydd Llun hyd ddydd Gwener.



Anfonwch neges e-bost aton ni yn ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Rhestr o'r geiriau anodd



Amgylchedd

Mae'r amgylchedd o amgylch ble rydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr a'r aer a phopeth sy'n byw ynddo neu arno. Er enghraifft: planhigion, anifeiliaid a physgod.



Cyfoeth naturiol

Mae cyfoeth naturiol yn bethau yn yr amgylchedd y gallwn ni eu defnyddio. Er enghraifft: dŵr i'w yfed, bwyd i'w fwyta, aer i'w anadlu, gwynt a dŵr i wneud ynni.



Llygredd

Mae llygredd yn rhywbeth yn yr amgylchedd sy'n medru achosi niwed i ni. Er enghraifft: gwastraff cemegol o ffatrioedd.





Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government